Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Fehefin 2022.

Presennol- Mari E M Mathews Cadeirydd , Anna Brown, Neil Pringle Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Dim ymddiheuriad

Ethol Is Gadeirydd- Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Anna Brown yn Is Gadeirydd y Cyngor.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg Fai 2022

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu
Dywedodd y clerc nad oedd wedi clywed gair pellach gan yr heddwas Peter Evans. Y clerc i gysylltu eto hefo'r heddwas.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair
Nodwyd bod Matt Macdonald yn trefnu i ymweliad I Bont-y-Pair

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy
Dywedodd y Cyng E Roberts bod y Gymdeithas Tai yn parhau i ddisgwyl am ganiatâd cynllunio.

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach
Eglurodd y clerc nad oedd gwybodaeth bellach ynglŷn ag ymweliad i'r safle gan swyddog gorfodaeth y Parc Cenedlaethol

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin
Y clerc i anfon at Katie Clubb [Cartrefi Conwy] bod y Cyngor yn ymwybodol bod tenant o Fro Gethin wedi anfon at Robin Millar AS i ddatgan pryderon.

[1.5]Llystyfiant Pont-y-Pair
Eglurodd y Cyng E Roberts y byddai'r gwaith yn debygol o ddechrau ar y 29ain Orffennaf

[1.6] Dyn mewn Fan
Y clerc i gysylltu gydag Edward Jones APCE i drefnu cyfarfod ynglŷn â chynnal a chadw yn y pentref.

[1.7] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr
Nodwyd bod costau sylweddol o ddeutu 1 miliwn, y clerc i ysgrifennu at Bennaeth Adran yr Amgylchedd I geisio cefnogaeth Cyngor B S Conwy

[1.8] Holiadur Cymuned
Eglurodd y Cyng Mari E M Mathews bod canlyniadau'r holiadur ar fin bod yn barod i'w cyhoeddi

[1.9] Cyfarpar Chwaraeon Cae Llan
Dywedodd y Cyng E Roberts bod trafodaeth yn parhau

[2] Clwb Peldroed Betws
Adroddodd y Cyng Neil Pringle ynlgun a thrafodaeth gyda Tony Godbert yn ymwneud a materion y cae peldroed yn enwedig y trafferthion wrth gymryd cic gornel oherwydd y llwybr newydd.. Cytunodd N Pringle I gael trafodaeth bellach gyda Godbert i edrych os ydi'n bosib symud llinellau lled y cae.

Y Brif Agenda

[2.2] Materion Cynllunio
[a] Newid defnydd encilfa bws i le eistedd arlwyaeth gyda chanopi gwydr.
Gorsaf Reilffordd, Betws-y-Coed
Penderfynwyd anfon at APCE bod pryder ynglŷn â thrafnidiaeth a diogelwch ond fod y Cyngor yn gefnogol i'r cynnig yn amodol fod y Parc Cenedlaethol yn creu encilfa bws arall yn ymyl y toiledau.
[b] Datblygiad heb Awdurdod Ffordd Craiglan/ Pwll yr Afanc
Nodwyd nad oedd caniatâd i'r datblygiad gan APCE a bod cyfleusterau i gael ei dymchwel. Deallwyd y bydd Jonathan Cawley APCE yn cysylltu gyda'r Cyng E Roberts ynlgun a'r mater.

[2.3] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Mai 2022
[b] Dywedodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol yn ôl i'r arferol.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol
[1] Nid iw'r Cyngor wedi rhoi cytundeb gwaith i'r clerc yn unol ag S 1 Deddf Hawliau Cyflogaeth o fewn 2 fis o gychwyniad y gyflogaeth.
[2] Mae gan y Cyngor £155,557 o arian wrth gefn yn gymharol i presept o £3000. I ofalu bod y Cyngor yn gosod presept priodol fe ddylai'r Cyngor ystyried yr arian wrth gefn a sut i ddefnyddio'r arian wrth osod cyllideb a presept 2022/23
Y clerc i drefnu cytundeb gwaith i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
Nodwyd bod yr arian wrth gefn wedi ei drafod yn gyfarfod o'r Cyngor ar y 13eg Ragfyr 2021 a bod penderfyniad wedi ei wneud i beidio codi presept ar gyfer y flwyddyn 2022/23

[2.4] Astudiaeth Ecolegol Ystlumod/ Goleuadau Stryd Ychwanegol Stryd y Felin
Penderfynwyd talu 50% o £12,500 sef cost yr astudiaeth. Y clerc i gadarnhau gyda Cyngor BS Conwy.

[2.5] Safle We'r Cyngor
Penderfynwyd bod angen adfywio'r safle. Y clerc i drafod gyda'r rheolwr ynlgun gwelliannau ayb.

[2.6] Miwsig Uchel/Gwesty'r Gwydr
Y clerc i gysylltu gyda'r Gwesty ynlgun a chwynion bod y miwsig yn uchel ar fin nos ayb.

[2.7] Sgouts Gwydr
Penderfynwyd ystyried cais am gyfraniad ariannol i fynychu Jambori y byd yn nhe Corea yng nghyfarfod nesa'r Cyngor.

[2.8] Hen Eglwys Saint Mihangel
Gan nodi'r pryder lleol, y clerc i gysylltu gyda Parch Stuart Elliot ynglŷn ar gordyfiant blêr yn y fynwent

Mari E M Mathews, Cadeirydd